



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mai 2020

Llythyr Agored cyn Dydd Gŵyl Banc Calan Mai

Mae Cymru yn wlad hardd a chroesawgar, ond fel y gweinyddiaethau eraill ar draws y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfyngiadau i atal pobl rhag teithio os nad yw'n angenrheidiol yn ystod cyfnod yr argyfwng cenedlaethol hwn. Rydyn ni wedi cyfyngu ar fynediad i'n parciau cenedlaethol hefyd, gan gynnwys gosod cyfyngiadau ar feysydd carafanau, gweryllfeydd, gwystai, llety gwely a brecwast a llety gwyliau. Ar hyn o bryd, dim ond mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod lleol y gall y busnesau hynny agor.

Rydyn ni wedi rhoi'r camau hyn ar waith i ddiogelu iechyd ac i ddiogelu ein Gwasanaeth Iechyd, drwy gyfyngu ar ymlediad COVID-19 yn ein cymunedau yng Nghymru.

Mae'r rhan helaeth o'r boblogaeth yn parchu'r cyfyngiadau hynny ac yn gwneud ymdrechion sylweddol i gydymffurfio â nhw. Rydyn ni'n gofyn i bawb barhau i barchu'r mesurau hynny. Yn benodol, gofynnwn i'r sawl sy'n berchen ar ail gartrefi yng Nghymru i ymddwyn yn gyfrifol ac i osgoi teithio i'r cartrefi hynny hyd nes i'r cyfyngiadau hynny gael eu llacio.


Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn glir drwy gydol cyfnod yr argyfwng nad yw teithio i ail gartref yn cael ei ystyried yn angenrheidiol fel rheol. Yn wir, mae unrhyw un sy'n gadael y cartref y maen nhw'n byw ynddo, neu'n aros i ffwrdd o'r cartref y maen nhw'n byw ynddo, heb esgus rhesymol, yn cyflawni trosedd.

Yn fwyaf penodol, maen nhw hefyd yn rhoi eu hunain a'r cymunedau y maen nhw'n teithio iddynt mewn perygl. Maen nhw'n rhoi pwysau y gellir eu hosgoi ar yr heddlu ac ar ein gwasanaethau iechyd, gan gynnwys rhoi galwadau ychwanegol ar gadwyni cyflenwi.

Mae gan yr heddluoedd a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru amrywiaeth o bwerau gorfodi. Mae'r heddlu'n parhau i gadw golwg ar y sefyllfa o ran teithio heb esgus rhesymol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r heddlu, yr awdurdodau lleol ac eraill i gadw golwg ar y Rheoliadau a'r sancsiynau.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n lleihau cyfraddau trosglwyddo'r feirws: ac mae sicrhau ein bod ni'n teithio pan fo hynny'n angenrheidiol yn unig, yn chwarae rhan allweddol yn hynny o beth.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny. Tan hynny, gofynnwn ichi aros gartref i ddiogelu'r GIG ac achub bywydau.



Y Gwir Anrh Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru



Cllr. Andrew Morgan
Leader
Welsh Local Government Association



PCC Dafydd Llywelyn
Chair of All Wales Policing Group



Chief Constable Carl Foulkes
Chair of the Wales Chief Officers Group